# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

## 14 Mai 2025

<u>Yn bresennol</u>
Dr R Heath Davies (Cadeirydd)
Y Cynghorydd D Clements, Dr M Havard, Y Cynghorydd M James, Mrs J James, Y Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd V Thomas.

<u>Swyddogion yn bresennol</u>
Tim Buckle, Charles Rigby a Jason Blewitt (Archwilio Cymru), Ceri Kwiecinski, Astari (Archwilio Mewnol), Prif Weithredwr, Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Pennaeth Datgarboneiddio, Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.30am; 11.40am – 1.40pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd A Tinley.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Nodwyd bod y gair 'that' wedi'i nodi ddwywaith yn yr ail baragraff ar dudalen 3 o'r fersiwn Saesneg (Cofnod 6 Adroddiad ar y Camau Ymlaen gan Archwilio Mewnol). Hefyd o ran y cydbwysedd i'w daro ar gwblhau'r camau gweithredu oedd heb eu cymryd a nodir yng nghofnod 9 (Adroddiad Monitro Sicrwydd) gofynnodd y Cadeirydd am nodi bod rhaid sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i sicrhau cydymffurfiaeth.

Ar gynnig Dr Heath Davies, a eiliwyd gan y Cynghorydd Clements, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2025 yn amodol ar y diwygiadau uchod.

**4. Materion yn Codi/ Log Gweithredu**

**a) Gweithdy ar y Gyllideb (Cofnodion 4(a))**

Dywedodd y Prif Weithredwr bod sylwadau'r Aelodau a wnaed yn y gweithdy wedi'u cymryd i ystyriaeth a bod y tabl a gyflwynwyd wedi'i ddiweddaru ac amserlenni wedi'u hychwanegu. Hefyd roedd syniadau ar wneud arbedion gan staff ychwanegol wedi'i wneud. Byddai diweddariad

ar y camau nesaf yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Grŵp Cynhyrchu Incwm.

**b) Cyfraniad Yswiriant Gwladol Cyflogwyr (Cofnod 12)**
Mewn ateb i gwestiwn, atebodd y Prif Weithredwr nad oedd wedi cael gwybod hyd yn hyn y byddai'r Awdurdod yn derbyn unrhyw gyllid ychwanegol.

**c) Log Gweithredu**
Gofynnwyd i'r swyddogion roi dyddiadau penodol yn y golofn 'Amserlen' yn hytrach na chyfeirio at 'y cyfarfod nesaf'. Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch hyfforddiant diogelu yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Gorffennaf.

**Nodwyd** y diweddariadau oedd yn weddill yn y Log Gweithredu.

**5. Grŵp Iechyd a Diogelwch**
Derbyniwyd adroddiad y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2025.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ddigwyddiadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus) wedi bod ers y cyfarfod diwethaf, a dywedwyd bod dau wedi bod yn chwarter olaf 2024. Nodwyd, er nad oedd y ddau achos yn arbennig o ddifrifol, na ellid adleoli'r aelod o staff i ddyletswyddau eraill, ac felly bod yr aelod wedi bod i ffwrdd o'r gwaith am fwy na 7 diwrnod. Roedd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu dogfennu.

**Nodwyd.**

**6. Crynodeb o Archwiliad Blynyddol 2024**
Croesawodd y Cadeirydd Jason Blewitt o Archwilio Cymru a gyflwynodd yr adroddiad oedd yn amlinellu'r gwaith a wnaed ers y crynodeb blaenorol o'r Archwiliad fis Chwefror 2024. Byddai'r adroddiad ar Hyrwyddo Mynediad i'r Parc Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno'n fanwl yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

**Nodwyd.**

**7. Cynllun Archwilio 'Archwilio Cymru' 2025**
Dywedwyd bod y Cynllun yn amlinellu rhaglen waith Archwilio Cymru am y flwyddyn nesaf. Cyflwynodd Jason Blewitt y gwaith archwilio ariannol fyddai'n cael ei wneud, gan dynnu sylw at y lefel o berthnasedd fyddai'n cael ei ddefnyddio, y risgiau i'w harchwilio, a'r safonau cyfrifyddu newydd o ran prydlesi a fabwysiadwyd fis Ebrill 2024. Nodwyd mai'r dyddiad olaf ar gyfer cwblhau'r Archwiliad fyddai Hydref 31$^{ain}$ a bod y cynllun ffioedd wedi'i gymeradwyo gan y Senedd fyddai'n golygu cynnydd o 1.7%.

Aeth Charles Rigby rhagddo i amlinellu'r gwaith Archwilio Perfformiad fyddai'n cael ei wneud, ac y byddai hyn yn canolbwyntio ar adolygu'r trefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd ariannol.

Gan nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud adroddiad ar y graddau yr oedd sefydliadau wedi gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gofynnodd un Aelod am dderbyn dolen gyswllt i'r darn hwn o waith, a chytunodd y Prif Weithredwr i wneud hynny. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd am y camau a gymerwyd ar yr archwiliad ariannol, o ystyried lefel y gwallau a amlygwyd yn yr adroddiad y flwyddyn flaenorol, a chadarnhaodd Mr Blewitt bod darn interim o waith wedi'i wneud a bod rhai trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch cryfhau sicrwydd ansawdd, fodd bynnag, roedd o'r farn bod camau ymlaen wedi'u cymryd.

Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i nodi nad oedd y Pennaeth Cyllid ar gael y diwrnod hwnnw, ond ei fod wedi bod yn gweithio gyda'r Archwilwyr cyn cyhoeddi'r adroddiad ar yr Archwiliad. Mynegodd bryder ynghylch amserlen yr adroddiad ar gydnerthedd ariannol nad oedd i'w gyhoeddi tan fis Mehefin 2026, a hefyd nodi bod yr Awdurdod wedi ysgwyddo baich trwm drwy gynorthwyo dau archwiliad perfformiad yn 2024-25 gan nad oedd yr un wedi'i gynnal yn y flwyddyn flaenorol, ond eto ni roddwyd unrhyw ad-daliad. Eglurodd Mr Rigby bod y dyddiad ym mis Mehefin 2026 yn ymrwymiad ledled y sector ac roedd yn rhagweld y byddai'r gwaith i'r Awdurdod wedi'i gwblhau erbyn yr Hydref. Dywedodd hefyd nad oedd unrhyw ad-daliad wedi'i dalu gan fod y gwaith wedi'i wneud yn y pen draw.

**Nodwyd.**

**8. Adroddiad Archwilio Cymru ar Hyrwyddo Mynediad i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Dywedwyd, fel rhan o'r rhaglen archwilio perfformiad yn 2024-25, bod Archwilio Cymru wedi cynnal yr adolygiad uchod, a bod cylch gorchwyl yr adolygiad wedi'i nodi yn yr adroddiad. Y casgliad lefel uchel oedd bod yr Awdurdod wedi cyflawni ystod o weithgareddau i annog a gwella mynediad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ond bod gwendidau yn ei ddull o gasglu data a darparu adnoddau, a gwnaed tri argymhelliad penodol.

Roedd yn ofynnol i'r swyddogion roi Ymateb y Rheolwyr ar yr argymhellion hyn, ac atodwyd copi o'r ymateb hwn i'r adroddiad. Gofynnwyd i'r Aelodau gytuno i Ymateb y Rheolwyr.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Mr Rigby sylw at y datganiad ym mharagraff 12 o'i adroddiad bod yr adolygiad wedi'i gyfyngu i drefniadau sydd ar waith i sicrhau gwerth am arian, yn hytrach na gwerthuso'r prosiectau a gyflawnwyd gan yr Awdurdod, ac roedd yn cydnabod y gwaith sylweddol a wnaed gan yr Awdurdod i hyrwyddo mynediad i'r Parc.

Gan ddiolch i'r Archwilydd am ei sylwadau cytbwys, dywedodd y Prif Weithredwr bod y staff sy'n gweithio yn y maes hwn wedi'u siomi yn yr adroddiad ac wedi cymryd yr adroddiad fel beirniadaeth o'r gwaith yr oeddent yn ei wneud gydag adnoddau cyfyngedig. Gofynnodd am i ddiben yr archwiliad gael ei wneud yn gliriach mewn adroddiadau yn y dyfodol. Dywedodd hefyd ei fod o'r farn bod yr argymhellion yn afrealistig ac yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r gwaith. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu ei bod yn barnu bod cwmpas yr adroddiad yn rhy eang ac y byddai darn o waith â mwy o ffocws wedi bod yn fwy defnyddiol.

Roedd yr Aelodau hefyd wedi mynegi eu siom â'r adroddiad, o ystyried y gwaith enfawr a gyflawnwyd dros y blynyddoedd diwethaf gan Awdurdod bach o ran maint. Hefyd nodwyd bod y cyllid – y gyllideb flynyddol gan Lywodraeth Cymru a'r cyllid grant – yn gyllid tymor byr ei natur, a bod bwriadau a dyheadau'r Awdurdod yn rhai sydd wedi'u cynllunio dros y tymor hwy, er gwaethaf natur prosiect tymor byr y gwaith.

Ymatebodd Mr Rigby mai diben yr Archwiliad oedd pennu gwerth am arian, ac fel corff annibynnol, nid gwaith Archwilio Cymru oedd argymell cwrs o weithredu.

Gan droi at Ymateb y Rheolwyr oedd ynghlwm wrth yr adroddiad, dywedodd y Prif Weithredwr, o ystyried y cyd-destun a roddwyd gan yr Archwilydd yn gynharach yn y cyfarfod, y byddai wedi bod yn fwy defnyddiol pe bai'r argymhelliad cyntaf wedi'i eirio'n wahanol i ganolbwyntio ar ystyried y modd yr oedd yr Awdurdod wedi defnyddio'r data a gasglwyd. Yn ôl geiriad yr argymhelliad, roedd yn ymddangos ei fod yn feirniadaeth o'r data a gasglwyd pan nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw fodd o gasglu hyd yn oed sampl ystyrlon o ystyried y miliynau o ymwelwyr sy'n dod i'r Parc Cenedlaethol bob blwyddyn. Mynegodd siom hefyd gydag argymhelliad tri gan fod ymarferiad mapio rhanddeiliaid eisoes wedi'i wneud.

Wrth ymateb i'r dogfennau oedd ger eu bron, roedd yr Aelodau yn hapus i gytuno ag Ymateb y Rheolwyr, er iddynt nodi bod yr Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid ar wahanol brosiectau, a gofynnwyd am gynnwys cyfeiriad at ddefnyddio data Croeso Sir Benfro. Gofynnwyd i

Archwilio Cymru anfon dolenni cyswllt i unrhyw adroddiadau perthnasol fel y gallai'r Awdurdod ddysgu o arfer gorau.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad a chytuno ar Ymateb y Rheolwyr, yn amodol ar y diwygiadau uchod**.**

Eglurodd y Cadeirydd, er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i ystyried y newidiadau i'r Broses Rheoli Risg, ei bod yn bwriadu amrywio'r agenda a chymryd yr eitem honno nesaf. Roedd hi'n rhagweld y byddai'r darllediad byw yn ailddechrau tua 12.20pm.

**9. Eithrio'r Cyhoedd**

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd James, **PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu**.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.30am a 11.40am]

**10. Newidiadau i Broses yr Awdurdod o Reoli Risg**

Eglurodd y Prif Weithredwr, yn dilyn archwiliad diweddar o Aeddfedrwydd Risg gan Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, bod argymhellion wedi'u gwneud y dylid cyflawni gwaith ychwanegol i gryfhau'r lefelau sicrwydd. Felly, cyflwynwyd fersiynau diwygiedig o'r dogfennau sy'n ymwneud â Rheoli Risg, a gofynnwyd i'r Aelodau am sylwadau, cyn cyflwyno'r fersiynau terfynol i'r Awdurdod eu cymeradwyo.

Gan ddiolch i'r Prif Weithredwr am ei waith, roedd yr Aelodau yn hapus â'r dogfennau a gyflwynwyd, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

**11. Camau ymlaen ar Adolygiad Archwilio Mewnol o Seiberddiogelwch**

Nodwyd bod Cam Gweithredu 1061 o'r Log Gweithredu yn gofyn am ddiweddariad ar y camau a gymerwyd gan archwilio mewnol ar Seiberddiogelwch, a chyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor.

**Nodwyd.**

**12. Adroddiadau Archwilio Mewnol**

Croesawodd y Cadeirydd Ceri Kwiecinski o Astari, archwilwyr mewnol yr Awdurdod, a roddodd ddiweddariad ar y gwaith o lunio Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2024/25, yn ogystal â chrynodeb o'r gwaith a wnaed. Hefyd cyflwynwyd adroddiadau ar Ddatgarboneiddio a Newid Hinsawdd; Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; ac Adrodd ac Ymchwilio i Ddamweiniau a Digwyddiadau, yn ogystal ag adroddiad dilynol ar yr argymhellion archwilio blaenorol.

Eglurodd yr Archwilydd bod yr adroddiadau hyn i gyd yn rhai cadarnhaol, a'r adroddiadau ar Newid Hinsawdd a Chydraddoldeb yn derbyn sicrwydd sylweddol, ac roedd yr Aelodau yn falch o'r canlyniadau hyn.

Roedd yr adroddiad ar Adrodd ac Ymchwilio i Ddamweiniau a Digwyddiadau yn rhoi sicrwydd rhesymol i'r Aelodau bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle, ac y cydymffurfir â'r gweithdrefnau hynny, i glustnodi a gweithredu ar ddamweiniau a digwyddiadau mewn modd amserol. Fodd bynnag, clustnodwyd rhai gwelliannau rheoli i helpu i sicrhau bod y risgiau yn y maes hwn yn cael eu lliniaru yn barhaus ac yn effeithiol, gyda dau argymhelliad canolig yn cael eu rhoi, ac un ohonynt wedi'i ail-ddatgan o'r gwaith ar iechyd a diogelwch a wnaed y flwyddyn flaenorol. Roedd yr Aelodau yn falch o glywed bod prosesau yn cael eu hadolygu yn gyson a bod hyfforddiant ychwanegol yn cael ei drefnu i'r rheolwyr ar y modd o gynnal ymchwiliadau, ac roeddent yn hapus i gefnogi'r argymhellion a wnaed.

Hefyd, cyflwynwyd adroddiad ar archwiliad i ddilyn ymlaen o'r camau gweithredu blaenorol ar reoli fel y cytunwyd mewn ymateb i'r argymhellion gan archwilio mewnol, oedd yn rhoi sicrwydd rhesymol i'r Aelodau. O'r 11 argymhelliad a adolygwyd, ail-ddatganwyd tri, a nodwyd nad oedd unrhyw argymhellion uchel na chanolig nad oedd yn derbyn camau gweithredu priodol. Gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth i ddisodli un o'r argymhellion hyn gan nad oedd yr argymhelliad bellach yn ddefnyddiol. Eglurodd y Prif Weithredwr bod argymhelliad wedi'i wneud bod y Rhestr Wirio Amrywio Incwm yn cael ei defnyddio i greu cynllun gweithredu, fodd bynnag, er y byddai hyn yn ddefnyddiol ar gyfer prosiect mawr, roedd yn llai defnyddiol ar gyfer y nifer o syniadau bach oedd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Yn hytrach na disodli'r argymhelliad, roedd yr Aelodau o'r farn y dylid diwygio'r naratif i amlygu'r gwaith oedd wedi'i wneud i greu'r Grŵp Amrywio Incwm a thrafod y parodrwydd i dderbyn risg yn yr amrywiol syniadau. Roeddent yn hapus bod y Rhestr Wirio wedi ateb y diben ac nad oedd angen yr argymhelliad mwyach.

Roedd yr adroddiad olaf yn manylu ar y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 oedd wedi'i diweddaru drwy gynnwys y wybodaeth a gafodd Astari wrth weithio gyda'r Awdurdod dros y deuddeg mis blaenorol. Tynnwyd sylw at y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang wedi'u diweddaru a ddaeth i rym fis Ionawr 2025 sy'n rhoi mwy o bwyslais ar berchnogaeth y Bwrdd o'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol. Felly, roedd y Strategaeth yn nodi'n fwy manwl yr hyn yw union gwmpas pob archwiliad sydd i'w gynnal, a gofynnwyd am gymeradwyo'r Cynllun.

Roedd yr Aelodau yn croesawu mwy o fewnbwn, ac roedd Mrs James wedi cynnig cymeradwyo'r Cynllun, a eiliwyd gan y Cynghorydd James. O

ystyried y sylwadau a wnaed yn gynharach yn y cyfarfod, gofynnwyd am i'r thema casglu a dadansoddi data gael ei ystyried yn ofalus fel rhan o'r adolygiadau yn y dyfodol i helpu'r Awdurdod wella yn y maes hwn.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol 2025/26.

**13. Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwiliad Mewnol (yn diweddu 31 Rhagfyr 2024)**

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn cais gan y Pwyllgor, bod Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol wedi'i greu i gynorthwyo'r gwaith o fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o'r adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r camau gweithredu, ac roedd wedi'i ddiwygio ers y cyfarfod diwethaf mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed. Eglurwyd y byddai'r camau gweithredu hynny oedd wedi deillio o'r adroddiadau Archwilio Mewnol a gyflwynwyd y bore hwnnw yn cael eu hychwanegu at y Log Gweithredu yn dilyn y cyfarfod.

Roedd yr Aelodau yn falch o weld cymaint o gamau gweithredu wedi'u dangos fel 'Gwyrdd – yn  yr arfaeth', a'r gobaith oedd y byddai hyd yr adroddiad yn parhau i leihau wrth i'r camau gweithredu gael eu cwblhau. Fodd bynnag, gofynnwyd am eglurhad pellach ynghylch y dyddiadau cwblhau lle'r oedd y dyddiadau hynny wedi'u hymestyn, a nodwyd hyn.

**Nodwyd**.

**14. Adroddiad ar Berfformiad Amcanion Llesiant am y Cyfnod yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024**

Dywedwyd bod yr adroddiad hwn yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau ymlaen yn erbyn y dangosyddion blaenoriaeth, y prosiectau, y rhaglenni gwaith a'r gweithgareddau datblygu mewnol sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a nodir yng Nghynlluniau Cyflawni yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Mawrth 2025 ac roedd yn cynnwys ystadegau Chwarter 4 ar gyfer rhai mesurau, gan gofnodi perfformiad am y flwyddyn ariannol lawn. Nodwyd bod Cynlluniau Cyflawni yr Awdurdod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar hyn o bryd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y data a gesglir yn ddigonol i roi'r dystiolaeth, er enghraifft, i gyflawni Amcan 5 "cynorthwyo'r Parc ar y llwybr i ddod yn garbon niwtral". Atebodd y swyddogion mai dim ond rhan o'r dystiolaeth oedd gwaith yr Awdurdod a bod hyn yn cael ei ystyried yn yr adolygiad o'r Cynlluniau Cyflawni.

**Nodwyd.**

15. **Adroddiad Monitro Sicrwydd – Cydymffurfiaeth, Dyletswyddau Cyhoeddus a Statudol, a Gwelliant Corfforaethol**
Dywedodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth mai nod yr adroddiad hwn oedd adolygu perfformiad presennol yr Awdurdod o ran cydymffurfiaeth, dyletswyddau cyhoeddus a statudol, a meysydd gwelliant corfforaethol. Byddai'r adroddiad hwn yn un elfen o'r mesurau rheoli risg, ac yn gymorth i'r swyddogion ac i'r Aelodau fonitro, asesu ac ymateb i feysydd gwaith cydymffurfiaeth a gwelliant corfforaethol. Hefyd roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau ymlaen yn erbyn y meysydd gwelliant corfforaethol a glustnodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod ac yn y Cynlluniau Cyflawni.

Roedd yr adroddiad yn rhoi sgoriau cydnerthedd ar gyfer pob maes, a lle bod lefelau goddefiant neu sbardunau wedi'u cyrraedd oedd yn arwain at sgôr a ystyrir sy'n 'peri risg neu sy'n 'peri pryder', roedd gwybodaeth ychwanegol ac ymateb y rheolwyr wedi'u rhoi. Y cyfnod adrodd oedd y cyfnod yn diweddu chwarter 4 2024/25.

Nodwyd bod gwaith yn parhau i adolygu'r adroddiad hwn a'i gysylltiad â sicrwydd y gofrestr risg yn dilyn yr adolygiad o ddogfennaeth y gofrestr risg. Nodwyd bod blaen-raglen waith yn cael ei datblygu i fonitro polisïau corfforaethol, ac y byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli.

**Nodwyd.**

16. **Adroddiad Chwarterol ar Iechyd, Diogelwch a Lles**
Roedd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Pobl yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddamweiniau a digwyddiadau yn ystod chwarter cyntaf 2025, diweddariad ar bolisïau, absenoldeb staff oherwydd salwch, a hyfforddiant a datblygiad.

Yn sgîl y drafodaeth yn gynharach yn y cyfarfod ynghylch seiberddiogelwch, gofynnodd yr Aelodau am i gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar seiberddiogelwch barhau i gael ei fonitro, a bod y gwaith i wella cywirdeb yr adroddiadau ar hyn yn cael ei gryfhau gan fod anghysondeb i bob golwg â'r ffigurau oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad sicrwydd. Nododd yr Aelodau hefyd nad oedd rhai camau gweithredu wedi'u cynnwys yn y tabl o ddamweiniau a digwyddiadau, a gofynnwyd am gynnwys gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd mewn adroddiadau yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

**17. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

Awgrymodd y Cadeirydd y gellid gwneud rhywfaint o waith ar allu'r Awdurdod i werthuso/ mesur maint ei waith, yn enwedig gan fod rhywfaint o hyn yn anodd ei wneud. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid edrych ar y maes hwn fel rhan o'r adolygiad o'r Cynlluniau Cyflawni fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Aelodau yn y misoedd nesaf gan fod adrodd ar berfformiad yn y maes hwn yn hanfodol i sicrhau eu bod yn effeithiol.

**Penderfynwyd** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

**18. Diolchiadau**

Gan mai hwn oedd ei chyfarfod olaf gyda'r Awdurdod, diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion ac i'r Aelodau am eu gwaith yn y Pwyllgor hwn a dymunodd yn dda iddynt am y dyfodol. Gan ailadrodd y diolch a roddwyd iddi hi ac i Mrs Julie James yng nghyfarfod yr Awdurdod yn ddiweddar, diolchodd Cadeirydd yr Awdurdod i Dr Heath-Davies am ei gwaith caled a'i harbenigedd yn y maes archwilio oedd wedi bod o fudd mawr i'r Awdurdod.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2025 heb eu diwygio. |